# Digwyddiad Ymgysylltiad y Trydydd Sector.
# 21 Tachwedd 2019

## Adroddiad Ôl-ddigwyddiad

Ar 21 Tachwedd 2019 fe wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnal ei Ddigwyddiad Ymgysylltiad y Trydydd Sector blynyddol i ymgysylltu ar y cyd gyda sefydliadau o'r sector gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol (a adwaenir hefyd fel y trydydd sector). Prif ddiben y digwyddiad oedd ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a cheisio eu hadborth ar flaenoriaethau plismona'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno. Roedd 66 yn bresennol, yn cynrychioli 36 o sefydliadau lleol a rhanbarthol. Mae Atodiad A yn dangos rhestr o'r sefydliadau a fynychodd ac a gyfrannodd at y trafodaethau.

Yn wahanol i'r arferol ac yn dilyn adborth o ddigwyddiadau blaenorol gwnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddefnyddio meddalwedd Slido yn ystod y digwyddiad. Rhoddodd y feddalwedd Slido gyfle i fynychwyr gyflwyno cwestiynau anhysbys drwy gydol y digwyddiad ac ymateb i arolwg gweithredol.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi adborth i gyfranwyr am y prif negeseuon a'r cwestiynau a godwyd, canlyniadau'r arolwg Slido a sut fydd eu hadborth yn cael eu datblygu gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## Cyflwyniadau

Yn ystod rhan gyntaf y digwyddiad, cafwyd cyflwyniadau gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Arfon Jones; Diane Jones, Swyddog Comisiynu; Amanda Hanson, Cydlynydd Trais Difrifol; ac Anna Baker, Rheolwr Checkpoint Cymru.

### Comisiynydd Heddlu a Throsedd Arfon Jones

Gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Arfon Jones annerch y rhai oedd yn bresennol a diolchodd i'r trydydd sector am gefnogi plismona yn ein cymunedau. Roedd yn teimlo bod y gefnogaeth roeddent yn ei rhoi'n cael ei rhoi amlaf yn y meysydd mwyaf anodd o blismona, i gynorthwyo dioddefwyr bregus  gyda phroblemau anodd a pharhaus i leihau'r tebygrwydd i

drosedd ddigwydd. Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drosolwg o'i flaenoriaethau plismona. Trafododd y gwaith caled sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Heddlu Gogledd Cymru.

### Diane Jones – Swyddog Comisiynu

Canolbwyntiodd cyflwyniad Diane Jones ar y cynnydd a'r gwelliant sydd wedi'i wneud i'r broses gomisiynu ers 2016. Rhoddodd wybodaeth ar y ffrydiau ariannu sydd ar gael i'r Comisiynydd gan gynnwys Cronfa Lleihau Trosedd ac Anrhefn a Chronfa Gwasanaethau Dioddefwyr. Gwnaeth Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Gwerth Cymdeithasol ffurfio rhan o'r cyflwyniad hefyd. I ddarfod y cyflwyniad gwnaeth Diane Jones dynnu sylw at y cyflawniadau o 2016-2019 gan gynnwys prosesau tendro Llwybr Braenaru i Ferched, Checkpoint Cymru, IDVA a'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau.

### Amanda Hanson – Cydlynydd Atal Trais Difrifol

Rhoddodd Amanda Hanson drosolwg o'r Gronfa Ieuenctid Ymyrraeth Gynnar a sut mae wedi cefnogi Strategaeth Trais Difrifol 2018. Trafododd Amanda y nifer o wahanol brosiectau sy'n cael eu hariannu gan ~~y~~ Gronfa Ieuenctid Ymyrraeth Gynnar a'r gwaith gwych maent wedi'i wneud i gefnogi dioddefwyr bregus, sy'n cynnwys; Ymddiriedolaeth St Giles, Fearless, Street Games a Phrosiect SAVI.

### Anna Baker – Rheolwr Checkpoint Cymru

I gloi'r rhan hon o'r digwyddiad rhoddodd Anna Baker drosolwg o'r Cynllun Atgyfeirio Checkpoint Cymru a lansiodd ym mis Hydref 2019. Eglurodd Anna Baker y meini prawf cymhwysedd ar gyfer Checkpoint, amodau'r cytundeb a'r cynlluniau gweithredu, a phrif ffeithiau'r cynllun.

## Grwpiau Trafod

Yn ystod y digwyddiad gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol i gwblhau cyfres o gwestiynau fel grŵp i drafod prif themâu a materion. Gwnaeth bob bwrdd wedyn nodi hwylusydd ac adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r bwrdd i'r Prif Swyddog Gweithredol Stephen Hughes. Ceir dadansoddiad isod o bob cwestiwn gan gynnwys yr adborth gan yr hwyluswyr;

### Cwestiwn 1 – Ydych chi'n meddwl y gallai perthynas y Comisiynydd â'r sefydliadau'r Trydydd Sector gael ei gwella? Os felly, sut?

Teimlodd yr holl fyrddau fod ganddynt berthynas ragweithiol dda gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Teimlodd unigolion fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymgysylltu, yn cefnogi ac yn hawdd mynd ato. Fodd bynnag teimlodd nifer o sefydliadau Trydydd Sector y dylai fformat newydd gael ei chreu gan hysbysu sefydliadau am ddatblygiadau prosiect, meysydd targed penodol a ffrydiau ariannu. Ceir ein ffrydiau ariannu ar dudalen gomisiynu ein gwefan:

https://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Information/Commissioning.aspx

Yn ogystal, nodwyd fod nifer o sefydliadau'n ansicr sut i ofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymweld â'u sefydliad. Ceir dolen i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd isod sy'n cynnwys ffurflen gais er mwyn i sefydliadau ofyn am ymweliad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

https://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Working-in-Partnership/Application-Form.pdf

**Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno gyda'n model comisiynu presennol? Ydych chi'n meddwl y gellir ei wella neu ei addasu i fod yn fwy effeithlon? Os gellir ei wella, eglurwch pam.**

Teimlodd nifer o fyrddau mai ychydig o ddealltwriaeth oedd ganddynt am y model comisiynu presennol. Awgrymwyd y byddai siart lif o'r sefydliadau amrywiol sy'n mynd i'r model presennol o gymorth i sefydliadau trydydd sector. Yn ogystal, teimlwyd y dylai mesur gwerth fod yn fwy cyfochrog. Yn aml gall gwasanaethau comisiynu orgyffwrdd. Dylid hefyd ystyried cytundebau ariannu tymor hirach (3 blynedd+).

Mae'r ddogfen isod yn siart lif o'r gwasanaethau rydym wedi'u comisiynu yn 2019/20:

Commissioning Flowchart 2019-20.pdf

**Cwestiwn 3 – Pa mor dda mae eich sefydliad yn gweithio gyda'r Heddlu? Eglurwch.**

Ar y cyfan teimlodd y mwyafrif o sefydliadau fod ganddynt gysylltiadau ymarferol da gyda'r heddlu a'u bod yn gallu cyfathrebu'n dda er mwyn gwella'r cysylltiadau gyda'r bobl a gefnogir gan sefydliadau'r trydydd sector. Teimlodd nifer o sefydliadau y gallent godi'r ffôn i dderbyn y wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, awgrymwyd y gall rhannu gwybodaeth o dro i dro fod yn anodd oherwydd y ddeddfwriaeth RhDDC sydd wedi'i gweithredu'n ddiweddar.

**Cwestiwn 4 – Pa un o'r egwyddorion Checkpoint Cymru yr ydych yn cytuno â nhw, os o gwbl?**

Yn gyffredinol, gwnaeth yr holl fyrddau gytuno gyda'r egwyddorion Checkpoint. Roeddent yn teimlo ei fod yn gynllun gwych ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar yr unigolyn mewn ffordd sydd wedi'i theilwra'n dda. Fodd bynnag teimlwyd fod angen dangosyddion cyflawni da i sicrhau fod y cynllun yn gweithio'n iawn.

Gall Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadarnhau y bydd craffu parhaus o'r rhaglen Checkpoint Cymru sy'n cynnwys cais data misol sydd wedi'i atodi isod. Gwnaiff y cais data hwn ystyried y nifer o unigolion sy'n mynd drwy'r rhaglen, pa wasanaethau sydd eu hangen i gynorthwyo'r unigolion hyn wrth gwblhau'r rhaglen a llwyth gwaith bob llywiwr. Yn ychwanegol at graffu'r data bydd Bwrdd Llywodraethu Checkpoint yn parhau i ganiatáu diweddariadau ar lafar gan Reolwr Checkpoint ac arweinwyr yr heddlu. Bydd Checkpoint yn destun craffu yn y Bwrdd Penderfyniadau Tu Allan i'r Llys.



Checkpoint Monthly Scrutiny Table.xlsx

**Cwestiwn 5 – Pa addasiadau neu newidiadau fuasech chi'n ei wneud i Checkpoint Cymru a sut fuasech chi'n ei brofi ar gyfer y dyfodol?**

Wrth drafod yr addasiadau a phrofi'r cynllun Checkpoint ar gyfer y dyfodol, thema gyffredin oedd ariannu ac asesiad a gwerthusiad parhaus. Awgrymwyd hefyd na ddylai bod swyddi rhan amser.

Mae myfyriwr ôl-raddedig ym Mhrifysgol Bangor yn ymgymryd â gwerthusiad o'r rhaglen gan ystyried ei lwyddiant yn seiliedig ar aildroseddu a galw am y rhaglen. Gwnaiff canlyniadau'r gwerthusiad gynorthwyo i ddatblygu'r rhaglen yn y dyfodol. Yn ogystal, mae 9 o lyw-wyr Checkpoint llawn amser wedi'u penodi gyda 3 yn gweithio ym mhob dalfa; Llai, Caernarfon a Llanelwy.

## Sesiwn Holi ac Ateb

Isod ceir dadansoddiad o'r cwestiynau a ofynnwyd yn ystod ac yn dilyn y digwyddiad a'r ymatebion a roddwyd gan aelodau'r panel;

- **Mae'r gwaith a wnaed gan Gronfa Ieuenctid Ymyrraeth Gynnar yn amlwg yn wych. Sut ydym yn ei gynnal yn y dyfodol?**

Mae cynlluniau ariannu tymor byr y llywodraeth o'r Swyddfa Gartref yn peri problemau. Rydym wedi tynnu sylw'r Swyddfa Gartref at hyn ar bob cyfle. Nid yw'r newid gwleidyddol presennol a'r etholiad cyffredinol gerllaw wedi bod o gymorth i bethau. Ystyriwyd strategaethau ymadael bob prosiect ar ôl mis Mawrth 2020 o fewn y cynnig, ond mewn gwirionedd nid oedd gennym syniad pa mor llwyddiannus y byddai'r prosiectau'n dod a'r lefel o angen sydd gennym. Trafodir cynaliadwyedd pob prosiect gyda'r darparwyr cyflwyno gwasanaeth unigol a SCHTh.

- **Sut ydym yn cael mynediad at y cylchlythyr llinellau cyffuriau?**

  Cysylltwch â SCHTh neu Amanda Hanson am gopi o'r cylchlythyr.

  OPCC@nthwales.pnn.police.uk

  Amanda.hanson@nthwales.pnn.police.uk

- **A fydd gan Checkpoint Cymru gyfleoedd cyflogi a gwirfoddoli i unigolion gyda chefndiroedd mewn camddefnyddio sylweddau, caethineb a chyfiawnder troseddol?**

  Ceisiodd Checkpoint Cymru recriwtio pobl gyda phrofiad byw yn y gyfres gychwynnol o recriwtio. Mae hyn yn rhywbeth wnaiff barhau i gael ei ofyn / a fydd yn ddymunol mewn unrhyw yriannau recriwtio yn y dyfodol.

  O ran gwirfoddoli, nid ydym yn canolbwyntio ar yr elfen honno yn y cyfnod cynnar hwn o weithredu a chyflwyno wrth i ni ganolbwyntio ar y busnes craidd. Fodd bynnag, wrth i Checkpoint esblygu a datblygu mae'n sicr yn rhywbeth y buasem yn ystyried maes o law.

- **Pan mae Prosiect Heddlu Gogledd Cymru mewn ysgolion yn cael ei gyflwyno ynghylch Llinellau Cyffuriau a Chamfanteisio, a fydd digon o hyfforddiant i athrawon mewn ysgolion i drin gyda dadleniadau gan YP ac arwyddion camfanteisio a all fod yn fwy cynnil?**

  Bydd, mi fydd y wers Llinellau Cyffuriau newydd i ysgolion yn cael ei chyflwyno gan Swyddog Cyswllt Ysgolion yr ysgol ar y cyd â Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG). Bydd athrawon yn bresennol yn ystod y gwersi. Rhoddir adnoddau ychwanegol i athrawon i gyflwyno gweithgarwch pellach a bydd sesiynau hyfforddi penodol i'r athrawon.

- **Beth mae'r data o Durham yn ddweud wrthym am leihad posibl mewn cyfraddau aildroseddu wedi ymgysylltu yn Checkpoint?**

  O fewn adolygiad academaidd Checkpoint canfuwyd fod cyfradd aildroseddu ar gyfer Penderfyniadau Tu Allan i'r Llys cyn Checkpoint yn 21.9% tra roedd cyfraddau aildroseddu ar gyfer y rhai i gyd a roddwyd ar Checkpoint (yn cynnwys y rhai hynny na gwblhaodd y cwrs) yn 14.6%. O'r rhai hynny a gwblhaodd y cwrs fodd bynnag roedd cyfradd aildroseddu o 6.8%.

- **A all y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymroi i ariannu ffynonellau ar gyfer cyfnod hirach heb yr angen am arloesedd blynyddol er mwyn sicrhau y gall newid GO IAWN gael ei gyflawni ar gyfer unigolion?**

  Cadarnhaodd Diane Jones y gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd roi ffynonellau ariannu am gyfnodau hirach drwy dendro cystadleuol am wasanaethau, a wnaiff alluogi sefydliadau i gynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno yn y dyfodol.

- **Mae'r mwyafrif o fathau o gam-fanteisio'n gorgyffwrdd yn aml ac yn digwydd ar y cyd h.y. troseddol/rhywiol. Beth yw eich safbwyntiau ar hyb camfanteisio amlasiantaeth a welir mewn heddluoedd eraill?**

  Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Arfon Jones yn cefnogi'n llawn yr hybiau cam-fanteisio amlasiantaeth ac yn falch o ddweud fod cynlluniau ar gyfer un yng Nghonwy.

- **A yw graddfa wirioneddol problemau meddu cyllyll a chyffuriau yn hysbys mewn llawer o ysgolion uwchradd sydd i'w weld yn amharod i rannu data i warchod eu delwedd?**

  Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Arfon Jones: "Nid yw'n unrhyw syndod i mi ond buasai'n well gen i weld ysgolion yn ymdrin ag achosion o feddu cyffuriau'n fewnol drwy gyfiawnder adferol yn hytrach na ffonio'r heddlu a gweld plant yn cael eu troseddoli. Dylai ysgolion gofnodi digwyddiadau serch hynny a pheidio gwaethygu'r broblem drwy waharddiadau hir neu waharddiadau parhaol. Rydym yn ffodus nad oes gennym broblemau troseddau cyllyll sylweddol yng Ngogledd Cymru. Ond lle mae achosion o blant yn dod â chyllell i'r ysgol, buaswn yn disgwyl i'r ysgol

gysylltu â'r heddlu ar bob achlysur o ystyried y risgiau diogelu."

- **A all yr adroddiad ymchwil gwych ar Linellau Cyffuriau a grëwyd gan Heddlu Gogledd Cymru gael ei rannu ledled yr holl asiantaethau? A oes camau i sefydliadau gofrestru amdanynt?**

  Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredol Stephen Hughes y byddai'r adroddiad diwygiedig ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ceir copi diwygiedig o'r Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau isod;

- **A all nawdd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynorthwyo pobl sy'n syrthio i'r categori Dim Adnodd i Gronfeydd Cyhoeddus?**


  Yn anffodus mae'n broblem llesiant iechyd a chymdeithasol a dylid ymdrin â hi gyda'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.


- **Sut all sefydliadau sy'n gweithio ar ran y Gronfa Ieuenctid Ymyrraeth Gynnar gynorthwyo'r Rhwydwaith Trydydd Sector ymhellach i greu cysylltiadau sefydlog ac ymddiriedaeth?**


  Mae partneriaeth a chydweithio yn bwysig. Nid yw gweithio mewn partneriaeth heb heriau. Tra dylem ystyried yr hyn all partneriaid eu cyflwyno, dylem hefyd ystyried canlyniadau eu hepgor. Tra ei bod yn ddealladwy mewn marchnad o nawdd cyfyngedig y gall sefydliadau deimlo'n amddiffynnol am eu gwaith, bydd partneriaid sy'n cael eu cymell gan amcanion a rennir ac yn dechrau gyda pherwyl, bob amser yn cyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl i'r bobl maent yn eu cynorthwyo. Mae hyn yn hytrach na blaenoriaethau unigol bob partner.


## Arolwg Slido

Drwy gydol y digwyddiad gwnaethom gynnal arolwg a gofyn i'r rhai oedd yn bresennol i'w gwblhau rhyw ben yn ystod y dydd. Mae'r cwestiynau canlynol yn ffurfio rhan o'r arolwg;





Yn eich tyb chi, beth yw safon y gwaith mae'r Heddlu yn ei wneud yn eich ardal chi?
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
17%
67%
17%
0%
0%
Ardderchog
Da iawn
Canolig
Gwael
Gwael iawn


Troseddau Digidol
Camfanteisio'n Droseddol ar Blant
Twyll
Beth hoffech ei weld fel blaenoriaeth plismona arall?
Troseddau Casineb
Cymorth i Fudwyr Bregus
Digartrefedd

## Beth ydych yn ei feddwl y dylai'r Comisiynydd herio'r Prif Gwnstabl yn ei gylch?


- Ansawdd trin galwadau
- Tueddiadau newydd sy'n dod i'r amlwg fel Llinellau Cyffuriau a Chaethwasiaeth Fodern
- Ymateb yr heddlu
- Troseddau casineb
- Achosion o fasnachu pobl
- Diogelwch ar y ffyrdd
- Troseddoli plant
- Blaenoriaethu Adnoddau i Ddiogelu Plant ac Oedolion Bregus






A ydych wedi mwynhau digwyddiad heddiw?
120%
100%
80%
60%
40%
20%
0%
100%
0%
Ia
Na


## Ffurflenni Adborth


Gofynnwyd i bawb oedd yn bresennol gwblhau ffurflen adborth yn dilyn y digwyddiad. Ceir dadansoddiad isod o'r adborth a dderbyniwyd.




## Atodiad A – Sefydliadau yn Bresennol

1. Hafan o Oleuni
2. Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
3. GISDA
4. Gwasanaeth Prawf Cymru
5. Mind Gwynedd a Môn
6. CAIS
7. Hafal
8. Groundwork Gogledd Cymru
9. Ymddiriedolaeth St Giles
10. OWL Cymru
11. Street Games
12. RASASC
13. Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint
14. DASU Gogledd Cymru Cyf
15. Gorwel
16. Cartrefi Conwy
17. Cyngor Wrecsam
18. Comisiynwyr Ieuenctid
19. Hafan Cymru
20. Stepping Stones
21. Rhwydwaith Trawsrywedd Unigryw
22. AVOW
23. Canolfan Cymorth Dioddefwyr
24. Caniad
25. CWVYS
26. Age Cymru

27. Awdurdod Diwydiant Diogelwch
28. Kaleidoscope
29. Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr
30. SARC
31. TGP Cymru
32. Barnardo’s
33. Cyngor Sir Conwy
34. Cam-drin Domestig Aberconwy
35. BAWSO
36. Aelodau o'r Panel Heddlu a Throsedd

# Atodiad B – Cyfryngau Cymdeithasol

Drwy gydol y digwyddiad gwnaethom ddefnyddio'r hashnodau #TrydyddSector2019 a #ThirdSector2019 gan annog y rhai oedd yn bresennol i drydar. Isod mae enghreifftiau o gyhoeddiadau Twitter o'r digwyddiad;

**Clive Wolfendale** @clive_cais · Nov 21
**#ThirdSector2019**. PCC speaking at today's third sector engagement event in North Wales.



2 5

**VS North Wales Victim Help Centre** @NW_VHC · Nov 21
Lovely to be here at the **#thirdsector2019** @NorthWalesPCC engagement event. / Braf cael bod yma yn #trydyddsector2019.



3 6

**John Gallanders** @JohnGallanders · Nov 21
**#ThirdSector2019** #dianejones talking about the value of Third Sector and #socialvalue provided by Sector and #Police challenges of future creating jobs and culture



4 5

**Katie Clubb** @ClubbKatie · Nov 21
Interesting afternoon at the @NorthWalesPCC event hearing about the valuable third sector contribution to crime prevention in North Wales...great examples of successful collaboration; prevention and early intervention; and social value delivered **#ThirdSector2019**



11

**PCC Gogledd Cymru** @NorthWalesPCC · Nov 21

Trafodaethau brwd yn digwydd / Interesting discussions being held
#TrydyddSector2019 **#ThirdSector2019**




4 6

**PCC Gogledd Cymru** @NorthWalesPCC · Nov 21

Amanda Hanson ein Swyddog Atal Trais Difrifol yn trafod y Gronfa Ymyrraeth Gynnar Ieuenctid / Amanda Hanson our Serious Violence Prevention Coordinator discussing the Early Intervention Youth Fund #TrydyddSector2019 **#ThirdSector2019**




5 8

**CheckpointCymru** @CheckpointCymru · Nov 21

Staff CHATh draw yn ddigwyddiad Ymgysylltu'r Trydydd Sector

OPCC staff are at the Third Sector Engagement Event today

#trydyddsector2019
**#thirdsector2019**

@NorthWalesPCC @ArfonJ @NWPolice @HeddluGogCymru @NWPCCFoulkes @NWPDCC

1 5

**Emma Jones** @EmmaJones2301 · Nov 21


**#thirdsector2019** #pccengagement @SGTCymru @StreetGameWales @eystwales



3 10

**PCC Gogledd Cymru** @NorthWalesPCC · Nov 21

Anna Baker ein Rheolwr Checkpoint newydd yn esbonio sut bydd Checkpoint yn gweithio ofewn Gogledd Cymru / Anna Baker our new Checkpoint Cymru Manager explaining how Checkpoint will work within North Wales
#TrydyddSector2019 **#ThirdSector2019**




2 4 9

**Clive Wolfendale** @clive_cais · Nov 21

**#ThirdSector2019** Good to hear support expressed for commissioning local services - and local jobs.

1

**John Gallanders** @JohnGallanders · Nov 21

No recourse to public funds shows a lack of understand of possible solutions. Further discussion required **#ThirdSector2019** @nothwalrspcc @wrexhamcbc #wrexhamcbc